Cyflwyniad

Beth ydi Menter Iaith?

Corff sy'n gweithio i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ar lawr gwlad ydi Menter Iaith. Mae yna Fenter Iaith ym mhob sir yng Nghymru bron.

Beth am Fenter Iaith Conwy?

Sefydlwyd Menter Iaith Dinbych-Conwy fel corff gwirfoddol ym 1998 ar sail partneriaeth rhwng Canolfan Iaith Clwyd, Menter Dyffryn Clwyd a Menter Colwyn. Roedd ganddi aelodaeth a phwyllgor llywio (yn cynnwys swyddogion) a threfnwyd gweithgareddau yn unol â'i chyfansoddiad. Roedd rhai o'r aelodau'n unigolion tra bo eraill yn cynrychioli cyrff amrywiol.

Penderfynwyd diddymu Menter Iaith Dinbych-Conwy ym mis Medi 2003 er mwyn ffurfio dwy fenter sirol, sef Menter Iaith Conwy a Menter Iaith Dinbych. Y prif reswm dros wahanu oedd twf y Fenter o ran gweithgarwch, cynlluniau a staff. Mae'r drefn newydd wedi galluogi trefn weinyddol well, yn enwedig yn ariannol, oherwydd bod gan y ddwy sir nifer o gynlluniau sirol. Ers sefydlu Menter Iaith Conwy mae nifer y staff wedi cynyddu a'r cyfleusterau wedi gwella.

Aelodau Pwyllgor Menter Iaith Conw Cyf.

Cadeirydd – Gwyn Roberts

Trysorydd – Heb Bortffolio

Ysgrifennydd - Teleri Hughes - Staff

Baudewijn Morgan - Dysgwyr

Eirian Jones - Gwirfoddol

Eleri Evans – Materion Staffio

Wyn Jones – Materion Staffio

Tecwyn Ifan – Heb Bortffolio

Huw Prys - Heb Bortffolio

Eryl P Roberts – Ardal Wledig

Meirion Davies - Staff

Disgrifiad o'r ardal a wasanaethir gan Fenter Iaith Conwy

Ar hyd yr arfordir ac ar ffin ddwyreiniol Sir Gonwy ceir cymunedau megis Towyn, Abergele, Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos ble mae canran y boblogaeth a aned yng Nghymru yn aml yn 50% neu lai. Mae'r patrwm o newid demograffig a achosodd hyn (ac sy'n dal i ddigwydd) wedi effeithio'n sylweddol ar ganrannau siaradwyr Cymraeg y glannau, sy'n is ar gyfartaledd na 25%. Ar y cyfan addysg gynradd cyfrwng Saesneg sydd yn yr ardaloedd hyn ond fe all rhieni ddewis anfon eu plant i un o'r ysgolion penodedig Cymraeg a sefydlwyd yn Llandudno, Bae Colwyn ac Abergele ac yna ymlaen i Ysgol Dyffryn Conwy neu Ysgol y Creuddyn.

I'r de o'r A55 ceir cymunedau gwledig lle mae canran y boblogaeth a aned yng Nghymru gryn dipyn yn uwch, a lle mae canran uwch o lawer o siaradwyr Cymraeg. Mae canran siaradwyr Cymraeg yr ardal hon rhwng 60% a 80%. Addysg cyfrwng Cymraeg a geir yma gan fwyaf, er bod ambell i eithriad.

Map o'r Sir



Rydym ni yn ymwybodol o'r model "mathemategol" y mae ystadegydd BYIG wedi ei lunio sy'n dangos yr hyn sy'n digwydd i'r Gymraeg mewn blwyddyn. O edrych arno, gwelwn fod y Gymraeg yn colli 3000 o siaradwyr yn flynyddol. Tybiwn fod y sefyllfa yn Sir Gonwy yn eithaf tebyg. Ond o addasu'r ffigyrau gallwn yn hawdd iawn gyrraedd sefyllfa fwy cynaliadwy neu o "elw". Gallwn ddweud fod ein strategaeth yn dylanwadu ar y prif ffactorau yma.



Rydym ni wedi dynodi ein prif feysydd gweithredu a phenderfynu ar strwythur y Fenter ar sail y ffeithiau hyn. Mae posib rhannu'r strategaeth yn bedair rhan sef;

1. **Deilliannau**
2. **Meysydd Gweithredu**
3. **Pwyllgorau Ardal**
4. **Cynlluniau Penodol - Datblygu Cymunedol**

1. Deilliannau

Mae'r Fenter wedi ystyried ym mha feysydd y gall gael yr effaith fwyaf gyda'i hadnoddau presennol. Credwn mai trwy weithio i gyflawni'r deilliannau canlynol y gallwn wneud hyn:

- **Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd.**

- **Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn cymunedau % uchel (cefn gwlad) ac ar y Glannau**

Mae'r nodau a'r amcanion yma wedi eu seilio ar ein hadnabyddiaeth o'r sir a sefyllfa'r Gymraeg ynddi.

Rydym ni wedi gwahaniaethu rhwng yr ardal wledig a'r arfordir oherwydd natur ieithyddol y ddwy ardal. Mae patrwm gwaith ein staff craidd wedi ei seilio ar wasanaethu'r ddwy ardal a'u pwyllgorau ardal penodol.

2. Meysydd Gweithredu

Blaenoriaeth – Meysydd y bydd y Fenter yn arwain ynddynt

- ***Cymhathu / Dysgwyr / Mewnfudwyr***
- ***Ieuenctid / Allfudo / Cyflogaeth***
- ***Defnydd Cymunedol, Plant a Theuluoedd, Trosglwyddo Iaith***

Eilradd - Meysydd y bydd y Fenter yn cydweithio ynddynt â phartneriaid amlwg.

- ***Addysg***
- ***Busnes***
- ***Gwirfoddol***

3 Y Pwyllgorau Ardal

Rydym yn gweithio drwy bwyllgorau lleol sydd wedi eu ffurfio o wirfoddolwyr. Mae ein Swyddogion Ardal yn cynorthwyo'r pwyllgorau i greu rhaglen waith ar gyfer yr ardal.

Arfordirol

- Penmaenmawr a Llanfairfechan, sef Pwyllgor Ardal Pen-lan
- Llandudno a'r Cylch, sef Pwyllgor Ardal y Creuddyn
- Abergele

Gwledig

- Penmachno
- Pwyllgor Ardal y Berfeddwlad, sef yr ardal rhwng Dyffryn Conwy a Chlwyd.
- Llanrwst
- Cerrigydrudion

4. Cynlluniau Penodol – Datblygu Cymunedol

Cred Menter Iaith Conwy fod yna gyfle i lunio dyfodol disglair i'r Gymraeg drwy gynlluniau blaengar a chyffrous sy'n cyffwrdd â nifer o'r prif feysydd gweithredu. Drwy weithredu'r cynlluniau hyn credwn fod modd mynd gam ymhellach na hyrwyddo'r Gymraeg. Ein gobaith yw creu cyflogaeth cyfrwng Cymraeg a gwneud yr iaith yn rhan o isadeiledd economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu dau gynllun o'r fath;

- ***Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Arweinwyr Awyr Agored.***
- ***Cyfieithu Cymunedol.***

Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Arweinwyr Awyr Agored Menter Iaith Conwy.

Cefndir

Dangosodd gwaith ymchwil diweddar gan Brifysgol Bangor mai dim ond 5% o staff hyfforddi canolfannau awyr agored siroedd Conwy, Gwynedd a Môn sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae hyn mewn ardal lle mae cyfartaledd cyffredinol y rhai sy'n medru'r iaith oddeutu 55%. Credwn fod yr anghydbwysedd yma'n rhoi'r argraff i Gymry Cymraeg mai diwydiant estron ydi'r maes gweithgareddau awyr agored yn ei hanfod a'u bod o ganlyniad yn ei ddiystyru fel maes gyrfa. Mae hyn yn resyn mawr, am fod y diwydiant awyr agored yn un o'r ychydig feysydd sy'n medru darparu swyddi da tymor hir mewn ardaloedd gwledig. Gall hyn fod o gymorth mawr i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith. Ar hyn o bryd mae llawer o bobl cefn gwlad yn gorfod gadael bro eu mebyd i chwilio am waith. Yn ogystal, mae angen gweithio i newid meddylfryd Cymry Cymraeg sydd ddim yn ystyried y maes awyr agored fel maes gyrfa. O ran sectorau gwaith perthnasol, mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y sector amaethyddol. Mae cryn botensial i amaethwyr arallgyfeirio i'r sector Awyr Agored. (Amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth - 11533 (40%) 2005 'Elwa'n Economaidd ar Iaith a Diwylliant' gan Arsyllfa Arloesodd Ysgol Fusnes Caerdydd). Mae'n holl bwysig fod pobl yn y sector hwn, sector sy'n crebachu, yn cael pob cyfle i arallgyfeirio.

Beth sy'n cael ei wneud am hyn ?

Yn sylfaenol rydym ni'n:

Cynorthwyo siaradwyr Cymraeg i hyfforddi yn y maes

Cael hyd i waith iddynt

Creu gwaith trwy annog pobl i ddewis gweithgareddau cyfrwng Cymraeg

Cyfieithu Cymunedol

Fel mae'r enw'n awgrymu, gwasanaeth cyfieithu ydi Cyfieithu Cymunedol. Yr hyn sy'n ei gwneud yn 'gymunedol' ydi'r ffaith fod y cwmni yn cynnig prisiau gostyngol i fudiadau cymunedol ac elusennol. Mae hyn wedi galluogi sawl sefydliad lleol nad oedd yn medru fforddio talu am wasanaeth cyfieithu yn y gorffennol i ddarparu deunyddiau yn ddwyieithog. At hyn, mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mae'r cwmni yn ei gynnig yn galluogi mudiadau lleol i ddal ati i gynnal eu cyfarfodydd yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar gael i'r rheini nad ydyn nhw'n medru'r iaith.

Ynghyd â darparu gwasanaeth hanfodol i'r sector cymunedol credwn fod gan Gyfieithu Cymunedol werth fel Menter Gymdeithasol sy'n gallu cynnig hyfforddiant a chyflogaeth i siaradwyr Cymraeg ifanc. Erbyn hyn mae'r cynllun bron yn hunangynhaliol a'n bwriad yw parhau i'w datblygu a chynnig gwasanaeth ehangach gyda mwy o gyfleoedd gwaith.

Cynllun Mentrau Cymdeithasol Cymraeg

Rydym yn cyflogi swyddog i gynorthwyo a chefnogi'r grwpiau lleol sydd eisoes wedi ffurfio dan fantell Menter Iaith Conwy i wella'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael yn yr ardal o ran adnoddau a gwasanaethau. Mae'n fwriad hefyd i gydweithio â chymunedau a chymdogaethau Cymraeg eraill i'w galluogi nhwythau i wneud yr un peth. Drwy ddatblygu mentrau lleol fel hyn bydd mwy o gyfleoedd i greu swyddi newydd ac annog mentergarwch ymhlith cymunedau Cymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau sylfaen gref i'r Gymraeg fel sgil neu arf economaidd. Drwy gael swyddog i gynorthwyo'r grwpiau i weld anghenion ac i ddatblygu'r cymhwysedd i'w diwallu bydd modd grymuso cymunedau Cymraeg a chryfhau mentergarwch yn eu plith.

Dau brif nod y cynllun fydd codi cymhwysedd:

- I geisio am gronfeydd i ddatblygu prosiectau cymunedol llai
- I ddefnyddio tystiolaeth sydd gan Fenter Iaith Conwy am ddiffyg gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg i ffurfio Mentrau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau o'r fath.

Strategaeth hir dymor Menter Iaith Conwy ydi galluogi mentrau fel hyn i ddod yn hunangynhaliol gan greu ffrydiau incwm ychwanegol i'r Fenter.

Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i greu swyddi newydd fydd yn fodd o atal allfudo.

Dyma'r cynlluniau sydd ar y gweill;

- ***Yr Hen Orsaf***
- ***Ynni Adnewyddol - Ardal Wledig***
- ***Gofal Plant – Y Glannau***

Heb y Pwyllgorau Ardal, ni fuasem yn gwybod bod galw am wasanaethau o'r fath.

- ## *Cynllun yr Hen Orsaf, Llanrwst.*

'Cynllun yr Hen Ysgol' oedd enw'r cynllun hwn yn wreiddiol ond oherwydd diffyg cydweithrediad perchnogion y safle bu gorfod i ni addasu'n cynlluniau a dewis safle arall. Datblygodd 'Cynllun yr Hen Ysgol' i fod yn 'Gynllun yr Hen Orsaf.'

Bydd Cwmni'r Hen Ysgol yn parhau i arwain y cynllun. Y nod yw datblygu adeilad yr Hen Orsaf yn gyfleuster i gynnal gweithgareddau recordio a chael ystafell gyfrifiaduron Apple Mac ar gyfer gwaith dylunio ac ati. Bydd yr holl adnoddau'n aml-ddefnydd ac aml-gyfrwng er mwyn cynnal gweithgareddau newydd a chyffrous i'r gymuned, oll drwy'r Gymraeg.
Mae'r cynlluniau datblygu eisoes wedi eu drafftio ac mae'r cwmni yn awyddus iawn i gydweithio â ni.

Credwn y gall y datblygiad hwn fod yn gatalydd creadigol a fydd yn rhoi bri a chynaladwyedd newydd i'r Gymraeg yn Nyffryn Conwy. Rydym yn awyddus i ailadrodd y math o lwyddiant y mae Galeri wedi ei brofi yng Nghaernarfon. Os llwyddwn ni i weithredu'r cynllun yn ei gyfanrwydd credwn fod modd creu 4 swydd graidd i ddechrau ac efallai hyd at 15 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol.

- ## *Ynni Adnewyddol - Ardal Wledig*

Yn dilyn ein gwaith â Phwyllgor Ardal Uwch Aled a dadansoddi fframwaith "Cymdogaethau Cymraeg Ffyniannus" daethpwyd i ddeall mai diffyg is-adeiladwaith a chyfleoedd economi oedd un o'r meysydd oedd yn bygwth dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Rydym ni'n gweld y maes ynni amgen fel cyfle i greu adnoddau a gwaith i gymunedau gwledig Cymraeg % uchel.

- ## *Gofal Plant – Y Glannau*

Rydym ni wedi gweld bod galw am feithrinfa cyfrwng Cymraeg ar y Glannau. Rydym ni'n bwriadu edrych ar hyn yn fanylach a gweithio â phartneriaid amlwg fel Mudiad Meithrin.